

## Agenda – Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

---

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideo Gynadledda drwy Zoom	Marc Wyn Jones
Dyddiad: Dydd Iau, 4 Chwefror 2021	Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.30	0300 200 6565
	<a href="mailto:SeneddNHAMG@senedd.cymru">SeneddNHAMG@senedd.cymru</a>

---

**Preifat: Cyfarfod anffurfiol ag Aelodau Is-bwyllgor Amgylchedd yr UE  
Tŷ'r Arglwyddi – drwy Teams (13.30–14.30)**

**Egwyl (14.30–14.45)**

**Rhag-gyfarfod preifat (14.45–15.00)**

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar [www.senedd.tv](http://www.senedd.tv).

**Cyfarfod cyhoeddus (15.00–16.30)**

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**  
(15.00)

**2 Sesiwn graffu gyffredinol gyda Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**

(15.00–15.40)

(Tudalennau 1 – 15)

Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig



Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr, Yr Amgylchedd a'r Môr  
Christianne Glossop, Swyddfa'r Prif Filfeddyg  
John Howells, Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio  
Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau  
Tim Render, Cyfarwyddwr Tir, Natur a Bwyd  
Dogfennau atodol:  
Briff Ymchwil

## **Egwyl (15.40–15.50)**

### **3 Parhau â'r sesiwn graffu gyda Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**

(15.50–16.30)

Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr, Yr Amgylchedd a'r Môr  
Christianne Glossop, Swyddfa'r Prif Filfeddyg  
John Howells, Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio  
Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau  
Tim Render, Cyfarwyddwr Tir, Natur a Bwyd

### **4 Papurau i'w nodi**

(16.30)

#### **4.1 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar lifogydd yng Nghymru**

(Tudalennau 16 – 31)

Dogfennau atodol:  
Llythyr ac ymateb

**4.2 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mesur Dros Dro) (Covid-19) (Diwygio) 2021**

(Tudalen 32)

Dogfennau atodol:

Llythyr

**4.3 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig mewn cysylltiad ag effaith yr anghydfod parhaus rhwng Centrica (Nwy Prydain) ac undeb y GMB ynghylch darpariaeth NYTH**

(Tudalennau 33 – 34)

Dogfennau atodol:

Llythyr

**4.4 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ynghylch Fframweithiau Cyffredin**

(Tudalennau 35 – 37)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth

Ychwanegol

Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

**4.5 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth yn dilyn ymddangosiad y Comisiwn yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 21 Ionawr**

(Tudalennau 38 – 39)

Dogfennau atodol:

Llythyr (Saesneg yn unig)

**5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

(16.30)

**Cyfarfod preifat (16.30–16.45)**

**6 Sesiwn graffu gyffredinol gyda Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig – trafod y dystiolaeth a daeth i law o dan eitemau 2 a 3**

**7 Y diweddaraaf am Fframweithiau Cyffredin**

(Tudalennau 40 – 116)

Dogfennau atodol:

Papur (Saesneg yn unig)

Atodiad

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4.1

**Lesley Griffiths AS/MS**  
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**  
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**



**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Mike Hedges AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Materion  
Gwledig a'r Amgylchedd,

27 Ionawr 2020

Annwyl Mike

## **Llifogydd yng Nghymru – Ymateb i argymhellion gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Materion Gwledig a'r Amgylchedd**

Hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor am y cyfle i drafod ein dull o reoli y perygl o lifogydd a'ch adroddiad manwl a gyhoeddwyd fis Rhagfyr 2020.

Rwy'n cydnabod y casgliadau a wnaethpwyd o fewn yr adroddiad ac yn anfon ymateb manwl i'r rhain, gan dderbyn pob un o'r 14 o argymhellion.

Rwy'n hapus i drafod yr ymatebion i'ch adroddiad ymellach os oes angen.

Cofion

**Lesley Griffiths AS/MS**  
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**  
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 16**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## **Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig o'r enw Llifogydd yng Nghymru**

---

Pwysleisiodd stormydd 2020 yr angen i atgyfnerthu ein blaenoriaethau strategol ar gyfer atal llifogydd, cydnerthedd ac addasu i'r hinsawdd. Gwelais drosof fy hun y dinistr y gall llifogydd ei achosi i gymunedau a'r effaith y mae wedi'i chael ar ein seilwaith a'n heconomi.

Rwy'n falch o weld y dystiolaeth a gafwyd gan y Pwyllgor yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gyflym ac yn gadarnhaol i'r llifogydd, a sut y gwnaethom ddarparu ystod o gymorth ariannol i awdurdodau a pherchnogion tai.

Unwaith eto, dangosodd ein rhwydwaith o asedau llifogydd eu gwerth drwy ddiogelu degau o filoedd o gartrefi. Yr ydym yn dysgu gwersi o'r llifogydd hynny. Maent wedi helpu i gryfhau ein Strategaeth newydd a phenderfyniad Llywodraeth Cymru i wneud mwy. Mae'r Llywodraeth hon am adael etifeddiaeth i genedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, gan roi rheoli dŵr wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau tra'n cynllunio'n effeithiol ar gyfer her gynyddol newid yn yr hinsawdd, a lleihau'r risg i fywydau.

Bydd y newid yn yr hinsawdd yn arwain at lefelau'r môr yn codi a stormydd mwy dwys. Yr wyf yn cydnabod bod Cymru'n wynebu penderfyniadau anodd ynghylch sut i amddiffyn ardaloedd arfordirol isel a gorlifdiroedd afonol, yn enwedig ar hyd aberoedd ac yn ein cymoedd serth. Gallwn leihau'r risg i gartrefi sy'n bodoli eisoes ond mae angen i ni hefyd sicrhau nad yw penderfyniadau datblygu gwael yn cael eu gwneud yn awr sy'n rhoi mwy o bobl mewn perygl yn y dyfodol.

Mae ein Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn nodi sut y bydd Cymru'n ymateb i'r heriau hyn. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu clir ar risg ac yn cryfhau ein safbwynt mewn meysydd gan gynnwys rheoli llifogydd naturiol, addasu arfordiroedd, cynllunio ac atal, cysylltu â deddfwriaeth Cymru a meysydd polisi eraill i sicrhau dull gweithredu ar y cyd.

Mae'r Llywodraeth hon wedi hybu buddsoddiad drwy gyflwyno'r Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol a chyllid mwy hyblyg i gefnogi'r gwaith o gyflawni. Mae hyn yn ei gwneud yn bwysicach fyth i weithio gyda'n cymunedau i deilwra prosiectau lliniaru i bob lleoliad, yna monitro eu heffeithiolrwydd a chyfleu sut mae risg yn cael ei rheoli, fel y gall y cyhoedd barhau i gymryd rhan ac elwa o leoedd mwy diogel. Mae'r tryloywder hwn nid yn unig yn meithrin ymddiriedaeth ac yn sicrhau'r manteision mwyaf posibl o fuddsoddi, bydd hefyd yn meithrin cyfrifoldeb ar y cyd i sicrhau ein bod i gyd yn chwarae ein rhan i helpu i leihau risg.

**Nodir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:**

## **Argymhelliad 1**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor cyn diwedd tymor y Senedd hon gan amlinellu ei barn ar weithredu'r Strategaeth Genedlaethol newydd yn ystod y Gaeaf cyntaf ers ei chyflwyno. Dylai hyn nodi a yw'n credu y bydd angen gwneud newidiadau i'r Strategaeth ai peidio.

### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Cyhoeddwyd y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru ym mis Hydref 2020. Byddai adrodd yn ôl ar y Strategaeth Genedlaethol y mae ei hamcanion a'i mesurau wedi'u pennu dros 10 mlynedd yn amhendant ar hyn o bryd.

Mae CNC yn gyfrifol am adrodd ar y Strategaeth Genedlaethol o dan Adran 18 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Cyhoeddir yr adroddiadau hyn bob dwy flynedd a'u hadolygu'n annibynnol gan y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol, fel y nodir yn y Strategaeth newydd. Disgwylir adroddiad nesaf Adran 18 yn 2022.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn nodi sut rydym yn bwriadu rheoli'r risgiau o lifogydd ac erydu arfordirol ledled Cymru dros oes y ddogfen hon, a fydd yn 10 mlynedd oni bai bod angen diweddariadau polisi sylweddol cyn hynny.

Er bod mesurau wedi'u cynllunio i fod yn glir ac yn cael eu cyflawni dros y ddegawd nesaf, mae'r Strategaeth wedi'i drafftio gyda golwg strategol, tymor hwy, gan gydnabod natur perygl llifogydd ac erydu arfordirol mewn perthynas â heriau newid yn yr hinsawdd.

Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor ac yn cyflwyno datganiad i'r Cyfarfod Llawn ar hynt y gwaith yn ddiweddarach eleni.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim Goblygiadau Ariannol.



## **Argymhelliad 2**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai'r Gweinidog nodi beth yw ymgysylltu cymunedol effeithiol mewn perthynas â rheoli perygl llifogydd. Dylai egluro sut mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cefnogi awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau ymgysylltiad cymunedol effeithiol ac egluro a fydd adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu at y diben hwn.

### **Ymateb: Derbyn**

Mae gan pob Awdurdod Rheoli Perygl Llifogydd ran i'w chwarae o ran ymgysylltu â'r gymuned a chyfleu perygl gyda'u cymunedau.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol newydd yn nodi sut y gellir gwneud hyn gydag enghreifftiau o arfer da. Pwysleisio'r angen i gydweithio â'n cymunedau, gan gynnwys ymgysylltu â phobl ifanc ac ysgolion. Yn y pen draw, mater i'n Awdurdodau Rheoli Risg o hyd yw penderfynu ar y ffordd orau o ymgymryd â'u gwaith ymgysylltu â'r gymuned ac allgymorth, gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru.

CNC sy'n gyfrifol am arwain ar raglen genedlaethol o ymwybyddiaeth o lifogydd yng Nghymru, gan helpu cymunedau i ddeall eu perygl o lifogydd a'r camau ymarferol y gallant eu cymryd i reoli digwyddiadau. Maent hefyd yn helpu gwirfoddolwyr o gymunedau i ddatblygu a chynnal eu Cynlluniau Llifogydd Cymunedol eu hunain.

Mae CNC wedi helpu dros 1000 o gymunedau, ysgolion a busnesau ledled Cymru i ddatblygu cynlluniau llifogydd ac wedi cael canmoliaeth drwy adolygiad annibynnol. Ar ôl adolygu eu rhaglen ymwybyddiaeth yn ddiweddar, mae gwaith pellach ar y gweill i wella a gwella mynediad at wybodaeth, gweithgareddau a rhybudd digidol a llywio platfformau.

Mae Awdurdodau Lleol hefyd yn chwarae rôl o ran codi ymwybyddiaeth a thrafod perygl llifogydd mewn cymunedau gyda chymorth Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae CNC yn cael eu hariannu'n llawn ar gyfer eu gweithgareddau refeniw a'u staffio yn ogystal â'u gweithgareddau ar-lein, megis cyngor ar lifogydd, risg a mapio gwybodaeth. Gall Awdurdodau Lleol ddefnyddio eu grant refeniw Rheoli Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM) ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned. Hefyd, rydym yn annog gwaith ymgysylltu ynghylch prosiectau llifogydd a chyfalaf arfordirol. Mae gweithgareddau o'r fath yn gymwys i gael grant cyfalaf ar bob cynllun FCERM.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol

### **Argymhelliad 3**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai'r Gweinidog ystyried a yw'n bosibl cael gwared ar gyfyngiadau 'diwedd blwyddyn' ar gyfer cyllid brys.

#### **Ymateb: Derbyn**

Er gwaethaf llifogydd mis Chwefror tua diwedd y flwyddyn ariannol, roedd modd defnyddio cyllid FCERM ar gyfer atgyweiriadau a gwelliannau i asedau yn 2020/21. Rhoddwyd cytundebau tebyg ar waith ar gyfer stormydd mawr gaeaf 2013/14.

Bwriad y Cynllun Cymorth Ariannol Brys (EFAS) yw darparu cymorth ychwanegol lle ystyrir bod goblygiadau ariannol digwyddiad mor sylweddol fel ei bod yn afresymol i awdurdod ymdopi'n llwyr o'i gyllid ei hun.

Mae cyfyngiadau diwedd blwyddyn yn nodwedd o'r trefniadau cyffredinol ar gyfer arian cyhoeddus a gwariant sy'n adlewyrchu cymeradwyaeth flynyddol o'r ddarpariaeth ariannol gan Lywodraeth y DU a Senedd Cymru.

Mae EFAS yn ymwneud yn bennaf â chanlyniadau uniongyrchol digwyddiad. Felly, mae'r cynllun yn talu costau refeniw delio â chyfnod ymateb i ddigwyddiad, a ystyrir fel arfer yn ddau fis. Felly, ni fydd y cyfnod hwn o reidrydd yn cyd-daro â diwedd blwyddyn.

Yn yr achos hwn, gweithredodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol EFAS mewn ymateb i stormydd mis Chwefror ac ymestyn y cyfnod cymhwyso ar gyfer mynd i gostau wrth ddelio â'r cyfnod ymateb ar unwaith o'r 9 Chwefror 2020 i'r 9 Mai 2020. Yn eithriadol, cafodd y cynllun ei ymestyn ymhellach i gynnwys ardrethi rhyddhad ardrethi busnes dewisol a rhyddhad treth y cyngor am hyd at dri mis fel gwariant cymwys. Talwyd cyfanswm o bron i £2 filiwn i bum awdurdod gyda gwariant cymwys ar gyfer EFAS. Rheolwyd yr arian hwn dros ddiwedd y flwyddyn.

Rydym yn cydnabod yr heriau a achosir gan y digwyddiad penodol hwn yn deillio o'r cyfuniad o lifogydd sylweddol dros gyfnod hir, her y pandemig a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig a ddechreuodd o 23 Mawrth 2020 a diwedd y flwyddyn ariannol.

Byddwn yn sicrhau, lle mae achosion brys yn digwydd yn agos at neu ar draws diwedd blwyddyn, ein bod yn ystyried gydag awdurdodau lleol yr effeithir arnynt pryd fydd gwariant brys yn debygol o ddigwydd a rheoli unrhyw effaith diwedd blwyddyn ar y cyd.

**Goblygiadau Ariannol:** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol.

Nid oes cyllideb benodol wedi'i neilltuo ar gyfer atgyweirio llifogydd brys na chynllun EFAS (ac eithrio cyllideb dybiannol o £1,000 yn y Prif Grŵp Gwariant Tai a Llywodraeth Leol). Pan fydd cynllun yn cael ei actifadu, disgwylir y bydd unrhyw bwysau yn ystod y flwyddyn a grëir yn cael ei reoli gan ddefnyddio tanwariant, yn gyntaf o fewn y gyfarwyddiaeth ac yna ar draws Llywodraeth Cymru.

## **Argymhelliad 4**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai'r Gweinidog egluro pa gymorth ariannol a oedd ar gael i awdurdodau lleol i dalu am unrhyw gynnydd mewn costau yn deillio o reoli'r Gronfa Cymorth Dewisol yn dilyn y llifogydd.

### **Ymateb: Derbyn**

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i dimau ymateb brys o fewn Awdurdodau Lleol ddod yn bartneriaid cofrestredig yn y Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) er mwyn cefnogi ceisiadau yn yr un modd ag y mae sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau statudol eraill yn ei wneud fel aelodau o rwydwaith partneriaid y DAF. Roedd rhai aelwydydd yn gwneud cais annibynnol i'r DAF, gyda meini prawf cymhwysedd yn cael eu dilysu yn erbyn rhestrau a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a oedd yn lleihau'r baich ar ALLau ac yn helpu i gyflymu taliadau.

Ni roddwyd cymorth ariannol ychwanegol i Awdurdodau Lleol gan Lywodraeth Cymru i reoli swyddogaeth y DAF gan eu bod eisoes yn cefnogi aelwydydd â llifogydd yn uniongyrchol fel rhan o'u gwaith i gynorthwyo gyda'r llifogydd.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ariannol.

## **Argymhelliad 5**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa waith y mae wedi'i wneud i asesu lefel y cyllid y bydd ei angen i dalu costau cyfalaf o ran atgyweirio. Dylai hefyd egluro pa lefel o gyllid y gofynnwyd amdani gan Lywodraeth y DU at y diben hwn.

### **Ymateb: Derbyn**

Yn syth ar ôl stormydd mis Chwefror, rhoddais 100% o arian grant ar gael i bob Awdurdod Rheoli Perygl Llifogydd i wneud gwaith atgyweirio a gwella argyfwng i'w hasedau llifogydd, sef cyfanswm o £4.66m eleni.

I gydnabod y byddai angen darpariaeth ariannol sylweddol ar ddifrod a gafwyd i asedau seilwaith eraill dros gyfnod hwy, sefydlwyd cynllun adfer o dan Adran 31 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol. Gallai'r cyllid adfer hwn ddarparu cymorth ariannol ar gyfer gwariant cyfalaf a / neu reffeniw.

Roedd ceisiadau'r Awdurdod Lleol yn cynnwys nifer o brosiectau hanfodol oedd angen iddynt ddechrau er mwyn dod i ben cyn dechrau'r gaeaf ac atal unrhyw ddifrod pellach. Gofynnwyd i awdurdodau felly, lle'r oeddent o'r farn ei bod yn hanfodol fwrw ymlaen â gwaith brys ar unwaith, a dylent wneud hynny'n hyderus y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu'r cymorth ariannol angenrheidiol yn 2020-21. Amcangyfrifwyd bod hyn yn £6 miliwn o reffeniw a £19 miliwn o gyfalaf.

Amcangyfrifwyd mai'r cyfanswm sydd ei angen i dalu am yr holl atgyweiriadau yw £6 miliwn o reffeniw a £100 miliwn o gyfalaf i dalu costau hyd at 2023-24.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ariannol.

## Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa o ran sicrhau cyllid gan Lywodraeth y DU i dalu costau atgyweirio cyfalaf, gan gynnwys lefel y cyllid y cytunwyd arno a phryd y mae'n debygol y bydd ar gael i awdurdodau lleol. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd amlinellu pa ystyriaeth bellach a roddwyd i drefniadau wrth gefn os nad yw Llywodraeth y DU yn darparu lefel briodol o gyllid

### **Ymateb:** Derbyn

Ers i'r Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiad ar 9 Rhagfyr, mae UKG wedi cytuno i hawlio £31 miliwn yn 2020-21 i gefnogi gwaith hanfodol i atgyweirio llifogydd yng Nghymru. Rydym yn falch bod ein galwadau brys am y cyllid cychwynnol sydd ei angen ar Gymru i fynd i'r afael â'r difrod a achoswyd gan y stormydd drwg wedi'u cyflawni fel cam cyntaf.

Bydd yr arian yn cael ei ddarparu'n ffurfiol gan Lywodraeth y DU yn amcangyfrifon atodol y DU tua diwedd blwyddyn ariannol 2020-21. Cyn gwneud penderfyniad, rhoddwyd sicrwydd i awdurdodau lleol i alluogi gwaith brys a nodwyd ar gyfer 2020-21 i fynd rhagddo. Bydd yr arian yn cael ei reoleiddio yn y Drydedd Gyllideb Atodol ddechrau mis Chwefror.

Fodd bynnag, nid yw'r cytundeb hwn â Llywodraeth y DU yn cydnabod ein galwadau niferus am weithredu brys i sicrhau cyllid i dalu am gostau trwsio llifogydd y tu hwnt i 2020-21 a mater tymor hwy tomeni glo sy'n gysylltiedig ag etifeddiaeth ddiwydiannol Cymru. Safbwynt Llywodraeth Cymru o hyd yw na ddylid disgwyl i gymunedau Cymru dalu'r pris o adfer tomeni glo etifeddol. Mae'r tomeni glo yn rhagflaenu datganoli, ac effeithir yn anghymesur ar Gymru. Yr ydym wedi galw'n gyson ar Lywodraeth y DU i roi'r tegwch, yr hyblygrwydd a'r eglurder sydd eu hangen ar Gymru i gefnogi a diogelu ei chymunedau a'i busnesau, a phwysleisiwyd nad yw'r cyllid presennol yn adlewyrchu maint y problemau y mae Cymru'n eu hwynebu. Byddwn yn parhau i bwysu am setliad hirdymor.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol

## Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynglŷn a'r asesiad diweddaraf a wnaed o'r gost o sicrhau diogelwch tomennydd glo, ac ar y cynnydd o ran sicrhau cyllid gan Lywodraeth y DU.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Byddem yn fodlon rhannu gwybodaeth berthnasol â'r Pwyllgor ar yr adeg priodol; yn amodol ar y ddealltwriaeth, na fyddai unrhyw wybodaeth a rennir yn cael effaith negyddol ar unrhyw drafodaethau sy'n cael eu datblygu gyda Llywodraeth y DU.

Mae'r gwaith i asesu a nodi y gofyniad i gynnal a chadw tomeni yn parhau ac mae nifer o ffactorau sensitif heb eu bodloni.

Yn seiliedig ar y cylch cyntaf o arolygiadau a gynhaliwyd gan yr Awdurdod Glo ac awdurdodau lleol rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020, amcangyfrifwyd bod angen hyd at £32 miliwn i ymgymryd â chostau gwaith angenrheidiol i domeni glo. Amcangyfrifwyd y gwerthusiad hwn ar adeg pan oedd gwaith yn dal i fynd rhagddo i bennu nifer y tomeni glo ledled Cymru a nifer y tomeni risg uchel.

Mae'r Awdurdod Glo, gyda chymorth awdurdodau lleol, wedi dechrau ail rownd o arolygiadau tir o bob tomen risg uchel. Bydd yr arolygiadau hyn yn parhau dros y misoedd nesaf. Bydd yr arolygiadau hyn yn helpu i roi mwy o eglurder ynghylch lefel y gwaith sydd ei angen i sicrhau bod pob tomen mewn cyflwr sefydlog. Fodd bynnag, mae angen rhaglen adfer hirdymor ac mae costau y rhaglen hon yn cael eu hystyried ond byddant yn sylweddol.

Mae costau uniongyrchol hefyd i fynd i'r afael â'r difrod o lifogydd mis Chwefror 2020, gan gynnwys y costau adfer ar gyfer Tylorstown yn ogystal â'r tirlithriad diweddar yn Wattstown. Mae'r amcangyfrifon presennol o Rondda Cynon Taf yn rhoi'r costau trwsio yn Tylorstown ar £12.5 a mwy. £2.5 miliwn ar gyfer eleni er mwyn cael gwared ar y 60,000 tonn o rwbel a £10 a mwy miliwn y flwyddyn nesaf i adfer ochr uchaf y domen ac felly ei gwneud yn ddiogel.

Cyfarfu'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ar 10 Rhagfyr pryd y cytunodd y CST i becyn £31 miliwn ar gyfer costau 20-21 sy'n gysylltiedig â difrod llifogydd o Stormydd Ciara a Dennis a hefyd ddiogelwch y tomeni glo.

O'r swm hwn, roedd £9 miliwn ar gyfer tomeni glo, a oedd yn cynnwys:

- £2.5 miliwn ar gyfer gwaith Cam 3 yn Tylorstown – tynnu'r gweddillion o Afon Rhondda Fach;
- £800,000 o gostau refeniw i'r Awdurdod Glo; a
- £5.5 miliwn o gostau awdurdodau lleol ar gyfer cynnal a chadw tomeni glo yn 20-21 - o fewn y swm hon £110,000 ar gyfer gwaith yn Wattstown.

**Goblygiadau Ariannol:** Ar wahân i'r pecyn tomeni glo gwerth £9m y cytunwyd arno, bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

## Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai dull Llywodraeth Cymru o ddyrannu refeniw ar gyfer llifogydd ystyried y perygl presennol a'r perygl o lifogydd a ragwelir yn y dyfodol mewn ardaloedd awdurdodau lleol

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Fel rhan o'r newidiadau i'r Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol i ddatblygu un rhaglen fuddsoddi, lle caiff yr holl gyllid cyfalaf ei flaenoriaethu yn ôl risg, ymgynghorwyd â phob Awdurdod Rheoli Risg.

Wrth flaenoriaethu cyllid cyfalaf, ystyrir perygl llifogydd o bob ffynhonnell ochr yn ochr â meini prawf eraill gan gynnwys tystiolaeth o lifogydd yn y gorffennol, nifer yr eiddo sy'n elwa a manteision eraill a ddaw i brosiect.

O ran refeniw, byddwn yn ymgynghori â'r Awdurdodau Lleol ar yr argymhelliad hwn ar sut y gellid dyrannu refeniw yn ôl risg. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, ni fyddem yn edrych ar y risgiau o lifogydd dŵr wyneb yn unig, byddai angen gwneud hyn wrth edrych ar y llifogydd dŵr wyneb cyfunol, llifogydd afonol, llifogydd o'r môr ac erydu arfordirol.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol, mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â sut y dyrennir yr arian.

## Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion y gwaith a wnaed i asesu costau refeniw awdurdodau lleol o ran cyflawni'r Mesurau a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol newydd, ac egluro a fydd cyllid ychwanegol ar gael i dalu'r costau hyn.

### **Ymateb:** Derbyn

Nid yw'r Strategaeth Genedlaethol yn nodi ymhle y bydd ymyriadau llifogydd ac arfordirol yn digwydd. Mae'n gosod y fframwaith i'r Awdurdodau Rheoli Risg weithio ynddo.

Mae ei fesurau'n gweithio o ddyletswyddau a chyfrifoldebau presennol ac yn nodi ffyrdd gwell o weithio. Mae'n gwella gwaith parhaus gydag Awdurdodau Lleol a CNC, i gefnogi gwell dealltwriaeth tra'n symleiddio a gwella prosesau presennol ymhellach.

Yn y rhan fwyaf o achosion nid oes unrhyw ofynion ariannu ychwanegol, ac mewn achosion eraill, megis hyrwyddo mwy o allgymorth a chyfathrebu mae arbedion cost hirdymor sylweddol o ran cydweithio.

Dyrennir yr holl gyllid rheoli perygl llifogydd yn flynyddol, gan ystyried meysydd cyflawni penodol i fodloni gofynion. O'r herwydd, lle mae gofynion ychwanegol, er enghraifft drwy ddiweddarau data'r Cynllun Rheoli Traethlin, darperir cyllid i'r sefydliad(au) arweiniol perthnasol.

Drwy gydol y gwaith o baratoi'r Strategaeth Genedlaethol, buom yn cydweithio â CLILC, pob un o'n Hawdurdodau Rheoli Risg, y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol, grwpiau buddiannau cymunedol a thrwy ddigwyddiadau ymgynghori cyhoeddus ledled Cymru i gytuno ar y mesurau a'u pennu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnig cymorth refeniw i awdurdodau lleol yn ogystal â'u grant cynnal refeniw blynyddol. Rydym wedi cynyddu'r uchafswm y gall pob un wneud cais amdano eleni o £60,000 i £200,000.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol, caiff hyn ei ddyrannu o gyllidebau rhaglenni presennol.



## **Argymhelliad 10**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa asesiad a wnaed o gostau cyfalaf awdurdodau lleol o ran cyflawni'r Strategaeth Genedlaethol newydd. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd egluro'r trafodaethau y mae wedi'u cael ag awdurdodau ynghylch sut y bydd y costau hyn yn cael eu talu, o ystyried trefniadau cyllido presennol awdurdodau.

### **Ymateb: Derbyn**

Nodir y ddarpariaeth cyllid cyfalaf yn y Strategaeth Genedlaethol gyda chanllawiau ychwanegol yn ein Memorandwm Grant FCERM newydd (2020). Nid oes dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i fuddsoddi mewn asedau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Gall Gweinidogion Cymru ddarparu grantiau mewn perthynas â chostau sy'n gysylltiedig â rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd. Drwy ein rhaglen gyfalaf rydym yn sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer datblygu ac adeiladu prosiectau lliniaru llifogydd ac arfordiroedd ledled Cymru.

O fis Ebrill 2020 mae hyn bellach yn cynnwys 100% o gyllid ar gyfer yr holl waith paratoi cyn cynllun. Rydym hefyd wedi cynyddu'r gyfradd grant ar gyfer adeiladu prosiectau arfordirol er mwyn sicrhau bod cynlluniau eraill yn cyd-fynd â 85%.

Erbyn hyn, dim ond 15% o gostau'r cyfnod adeiladu yn unig y disgwylir i Awdurdodau Lleol eu darparu, y gellir eu rhannu â buddiolwyr eraill drwy gyfraniadau partneriaeth.

Rydym wedi gofyn i'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol ymchwilio ymhellach i adnoddau a sut i hyrwyddo cyllid partneriaeth yn well fel mesur yn y Strategaeth Genedlaethol.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol.

## **Argymhelliad 11**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa gyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol dalu costau gwelliannau i'r seilwaith priffyrdd i leihau perygl llifogydd, ac ar gyfer gwaith atgyweirio ar ôl llifogydd.

### **Ymateb:** Derbyn

Bydd y Gronfa Ffyrdd Cydnerth o £16.9 miliwn yn cefnogi 18 o gynlluniau ar draws 13 awdurdod lleol, a chaiff ei gwario ar gynlluniau i liniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys mynd i'r afael ag aflonyddwch a achosir ar y rhwydwaith priffyrdd gan y tywydd garw.

Yn ddiweddar, rydym wedi gwahodd awdurdodau lleol i wneud cais am arian grant gan y Gronfa Ffyrdd Cydnerth yn 2021-22.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol.

## Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa asesiad a wnaed o gostau referniw Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cyflawni pob un o'r Mesurau perthnasol a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol newydd, ac egluro a fydd cyllid ychwanegol ar gael i dalu'r costau hyn.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn allweddol wrth gyd-ddrafftio'r Strategaeth Genedlaethol a chydweithio ar yr holl Fesurau perthnasol gan sicrhau eu bod yn gyflawnadwy ac yn gyraeddadwy yn y llinellau amser gofynnol.

Yn unol â'n hymateb i Argymhelliad 9, nid yw'r Strategaeth Genedlaethol newydd yn cynyddu gwaith yn ddiangen, ond mae'n cryfhau ymhellach ein polisïau ar gyfathrebu, dulliau dalgylch, cydweithio a blaengynllunio. Mae'n ategu deddfwriaeth newydd gan wella prosesau a gweithdrefnau a osodwyd yn y Strategaeth flaenorol.

Mae ei fesurau'n gweithio o ddyletswyddau a chyfrifoldebau presennol ac yn nodi ffyrdd gwell o weithio. Mae'n gwella gwaith parhaus gydag Awdurdodau Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru, i gefnogi gwell dealltwriaeth tra'n symleiddio a gwella prosesau presennol ymhellach.

Dyrennir yr holl gyllid FCERM yn flynyddol, gan ystyried meysydd cyflawni penodol i fodloni'r gofynion. Yn y rhan fwyaf o achosion nid oes unrhyw ofynion ariannu ychwanegol, ac mewn achosion eraill, megis hyrwyddo mwy o allgymorth a chyfathrebu mae arbedion cost hirdymor sylweddol o ran cydweithio a lleihau cymhlethdod.

Os oes unrhyw ofynion ychwanegol, gellir darparu cyllid i'r sefydliad(au) arweiniol perthnasol, yn amodol ar y cyllidebau sydd ar gael. Er enghraifft, dyrannwyd £1.25 miliwn o referniw ychwanegol i CNC yn 2020-21 i adlewyrchu'r mesurau yr oedd disgwyl iddynt weithio arnynt eleni, gan gynnwys diweddariadau i'r Cynlluniau Rheoli Traethlinau.

Er mwyn helpu i hwyluso'r gwaith o gynllunio cyllidebau yn y dyfodol, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru nawr yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru i gyhoeddi gofynion buddsoddi hirdymor ar gyfer FCERM erbyn diwedd 2021 (Mesur Strategaeth Genedlaethol 23).

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol.

## **Argymhelliad 13**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei barn ynghylch tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru y bydd angen oddeutu 60 i 70 o staff uwchlaw'r llinell sylfaen bresennol i sicrhau gwelliannau cynaliadwy, hirdymor mewn gwasanaethau rheoli llifogydd.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Rwyf wedi cymryd diddordeb brwd yn sicrhau bod gan dimau llifogydd CNC adnoddau llawn.

Er bod staffio yn parhau i fod yn fater sefydliadol, mae CNC wedi gwella o'r lefelau uchel o swyddi gwag yn ei dimau FCERM a adroddwyd flwyddyn yn ôl. Mae'n bleser gennyf adrodd bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi recriwtio staff ychwanegol ers hynny. Disgwylwn i CNC barhau i ymdrechu i sicrhau bod pob swydd FCERM yn cael ei llenwi fel nad yw hyn bellach yn peri risg i ddarpariaeth weithredol nac ymateb.

Efallai y byddai o fudd i CNC seilio ei angen am adnoddau a'i ddyraniad referniw yn y dyfodol ar asesiad neu adolygiad cwbl gynhwysfawr er mwyn sicrhau ei fod yn blaenoriaethu ei gyllid i'r lefel gorau bosibl.

Felly, byddai angen i unrhyw staffio pellach fod yn benderfyniad gan Cyfoeth Naturiol Cymru, gyda Llywodraeth Cymru yn gofyn am adolygiad sylfaenol o weithgareddau a gynhaliwyd i gefnogi ein dealltwriaeth.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim goblygiadau ariannol ychwanegol.

## Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd y bydd y TAN 15 diwygiedig ar gael ac egluro sut mae'r diwygiadau'n adlewyrchu'r angen am safbwynt cryfach ar atal llifogydd.

### **Ymateb:** Derbyn

Disgwyliwn gwblhau'r adolygiad o TAN 15 yn gynnar yn nhymor nesaf y Senedd. Mae'r adolygiad yn cynnwys dogfen ganllaw wedi'i diweddarau a Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio, i ddisodli'r Map Cyngor Datblygu presennol.

Mae'r TAN 15 diwygiedig yn ategu ein Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer FCERM, ar ôl elwa o gydweithio ar draws y ddau faes polisi. Bydd hyn yn sicrhau bod ein polisiâu llifogydd, arfordirol a chynllunio yn cyd-fynd, gan ystyried gwell gwybodaeth er mwyn osgoi datblygiad amhriodol a rhoi cyngor clir ym Map Llifogydd newydd Cymru. Mae hefyd yn cydnabod sut y bydd perygl llifogydd yn mynd yn fwy difrifol mewn sawl ardal o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.

Bydd y map llifogydd newydd, yn wahanol i'r Map Cyngor Datblygu presennol, yn nodi'r ardaloedd y rhagwelir fydd mewn perygl o lifogydd yn y dyfodol o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Bydd hyn yn sicrhau y gall awdurdodau cynllunio ystyried gwydnwch cynigion datblygu yn y dyfodol yn eu prosesau gwneud penderfyniadau.

Bydd y TAN 15 diwygiedig hefyd yn cynnwys mwy o ganllawiau i awdurdodau cynllunio ar gynnal Aseidiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd. Gall SFCAs lywio polisiâu cynlluniau datblygu lleol a mesurau rhagweithiol eraill i atal datblygiadau amhriodol rhag digwydd mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim Goblygiadau Ariannol



**Lesley Griffiths AS**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

# Eitem 4.2

Lesley Griffiths AS/MS  
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mike Hedges AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

[Mike.Hedges@senedd.wales](mailto:Mike.Hedges@senedd.wales)

25 Ionawr 2021

Annwyl Mike

## Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mesur Dros Dro) (Covid-19) (Diwygio) 2021

Mae'r Offeryn Statudol o dan y teitl uchod yn ofynnol i barhau ac ailgyflwyno llacio dros dro mewn perthynas â rheolaethau swyddogol penodol a gyflwynwyd yn 2020 gan y Comisiwn Ewropeaidd, mewn ymateb i argyfwng Covid-19.

Bydd y llacio yn caniatáu ar gyfer rheoli rheolaethau swyddogol yn unol â chanllawiau cadw pellter cymdeithasol ehangach, a hefyd yn helpu i ddelio â phrinder staff, a allai fod wedi digwydd o ganlyniad i Covid-19.

O ran Cymru, mae'r diwygio yn rhoi'r gallu i awdurdodau cymwys gyflwyno mesurau dros dro. Bydd yr Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, a'r cynnig gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yw ei fod yn cael ei osod gerbron y Senedd ar 21 Ionawr gyda dyddiad cychwyn o 31 Ionawr.

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod i chi gan mai llacio brys dros dro yw'r gwelliannau hyn, rwy'n rhoi fy nghydsyniad, yn unol ag Erthygl 3(2B)(b)(i) o'r Rheoliad (UE) 2017/625 a ddargedwir, i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud yr offeryn statudol hwn mewn perthynas â Chymru.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd a'r Gweinidog dros Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg.

Cofion

**Lesley Griffiths AS/MS**  
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Lesley Griffiths AS/MS  
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Ein cyf LG/00451/21

Mike Hedges MS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

27 Ionawr 2021

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Ionawr, ynghylch effaith gweithredu diwydiannol sydd yn bosib gan yr undeb GMB ar gyflawni'r Cynllun Nyth Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru.

Cychwynnodd aelodau'r GMB weithredu diwydiannol ar 7 Ionawr am gyfnod cychwynnol o bum diwrnod. Mae camau pellach wedi ei drefnu ar saith diwrnod gwahanol rhwng 20 Ionawr ac 1 Chwefror.

Mae'r Prif Weinidog wedi ysgrifennu at y cwmni yn egluro bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn bryderus iawn na wnaed cynnydd tuag at ddatrys yr anghydfod drwy drafod.

Yng Nghymru rydym wedi ymrwmo i bartneriaeth gymdeithasol fel modd i ddatrys materion anodd ac mae gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â'i phartneriaid, ddi-ddordeb clir ac uniongyrchol mewn hyrwyddo canlyniad sy'n seiliedig ar y dull hwn. Mae'r Prif Weinidog wedi ysgrifennu at y cwmni i'w annog i barhau i drafod gyda'r holl undebau gyda'r bwriad o ddod i ganlyniad y cytunwyd arno gyda'i holl weithlu.

Mae fy swyddogion wedi cadarnhau nad yw gweithredu diwydiannol yn effeithio ar gyflawni'r Cynllun Nyth. Mae mesurau effeithlonrwydd ynni a ddarperir trwy'r Cynllun Nyth yn cael eu gosod gan gontractwyr yng Nghymru, nid gweithwyr Nwy Prydain. Nid yw staff rheoli a chymorth Nwy Prydain sy'n gweithio ar y Cynllun Nyth yn cymryd rhan yn y gweithredu diwydiannol. Ni ddisgwylir i'r sefyllfa hon newid. Mae Nwy Prydain wedi cadarnhau bydd y cytundeb gyda GMB i barhau i ddarparu gwasanaethau peirianegol Nwy Prydain mewn achosion brys, fel deiliaid cartrefi heb wres na dŵr poeth, yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol yn cael ei gynnal.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos gydag uwch reolwyr Cynllun Nyth Nwy Prydain i ddeall unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg neu gynllunio wrth gefn a allai fod eu hangen. Disgwyliwn i holl gontractwyr y Llywodraeth gefnogi egwyddorion gwaith teg, ac mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod cartrefi incwm isel yn parhau i elwa o'r mesurau effeithlonrwydd ynni cartref sy'n cael eu cyflawni trwy ein Cynllun Nyth.

Cofion

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Lesley Griffiths AS/MS**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs



Mike Hedges AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

28 Ionawr 2021


Annwyl Mike

### Fframweithiau Cyffredin

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol wedi bod yn monitro'r rhaglen waith fframweithiau cyffredin, ac o'r herwydd ysgrifennais at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd ar 27 Ionawr 2021 i ofyn am eglurhad ymgylch statws y fframweithiau sy'n ymwneud â Chymru.

Gallai hyn fod o ddiddordeb i'ch Pwyllgor, ac amgaeaf gopi o'r ohebiaeth er gwybodaeth i chi.

Yn gywir,



David Rees AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.  
We welcome correspondence in Welsh or English.



Jeremy Miles AS  
y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd  
Llywodraeth Cymru

27 Ionawr 2021

Annwyl Jeremy,

### Fframweithiau Cyffredin

Mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ("y Pwyllgor") wedi bod yn monitro rhaglen waith y fframweithiau cyffredin ac mae hefyd wedi ymgymryd â gwaith craffu ar faes sawl fframwaith.

Rwy'n ysgrifennu i ofyn am eglurhad o statws y fframweithiau sy'n ymwneud â Chymru.

Ein dealltwriaeth ni yw bod Cytundeb Amlinellol Fframwaith dros dro ("Fframwaith dros dro") ar gyfer maes pob fframwaith sy'n gymwys i Gymru, ac eithrio'r fframweithiau sy'n ymwneud â: chydabyddiaeth gilyddol o gymwysterau proffesiynol; gwasanaethau; gwrtait; a chynhyrchion organig. **A allwch gadarnhau a yw'r dehongliad hwn yn gywir?**

Er mwyn i Fframwaith dros dro fod yn weithredol, roeddem wedi deall y byddai angen cytundeb pob un o lywodraethau'r pedair gwlad trwy'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE). **A allwch egluro statws maes pob fframwaith, h.y. a yw Fframwaith dros dro wedi cael ei gytuno gan bob un o'r pedair llywodraeth yn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) ac, os nad yw, beth yw statws meysydd y fframweithiau hyn.** Er enghraifft, a ydynt yn cael eu hystyried yn weithredol rhwng yr Alban, Cymru a Lloegr, ond nid Gogledd Iwerddon mewn rhai achosion?

Os yw Fframweithiau dros dro yn bodoli, credwn ei bod yn hanfodol iddynt gael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl. Er bod gennym ddiddordeb o ran craffu ar y cytundebau hyn, ein prif bryder yw tryloywder. Mae'n bwysig bod Fframweithiau dros dro (a dogfennau cysylltiedig fel concordatiau) ar gael i randdeiliaid a'r cyhoedd fel eu bod yn gallu dechrau deall sut y bydd y meysydd polisi hyn yn




gweithredu yn y DU nawr bod y cyfnod trosglwyddo wedi dod i ben. Gofynnwn ichi gyhoeddi'r holl Fframweithiau dros dro sy'n weithredol ar hyn o bryd cyn gynted â phosibl, hyd yn oed os bernir nad ydynt yn barod ar gyfer craffu ffurfiol llawn. Fel yr ydym wedi dweud o'r blaen, credwn y dylid eu gosod gerbron y Senedd ochr yn ochr ag unrhyw gamau eraill i'w gwneud yn gyhoeddus.

Wrth wraidd y rhaglen fframweithiau mae ymrwymiad gan y pedair llywodraeth i beidio â gwyro oddi wrth gyfraith wrth gefn yr UE mewn maes fframwaith nes bod cytundeb fframwaith wedi'i gytuno'n derfynol. **A allwch gadarnhau bod yr ymrwymiad hwn yn dal o safbwynt Llywodraeth Cymru ac, i'r graddau yr ydych yn ei deall, fod llywodraethau gwledydd eraill y DU yn dal yr ymrwymiad hwn?**

Diolch am ystyried y cwestiynau hyn. Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "David F. Rees." The signature is written in a cursive style with a large initial 'D' and 'R'.

David Rees AS

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol



Dear Mr Hedges

28 January 2021

Thank you for your letter of 27 January and for inviting me and my fellow Trade and Agriculture Commission members, John Davies and Glyn Roberts, to the Senedd Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee's session on 21 January.

I was pleased to have the opportunity to explain the role and remit of the Commission, the extensive stakeholder engagement we have undertaken and the main areas the Commission's final report will cover.

We will remain in touch with the Welsh Government in the weeks ahead, as our report is finalised, and ensure that there is an opportunity for discussion of the report at the time of publication.

You asked if I could give you further details on the criteria for invitations extended to Members of the Senedd and Members of the UK Parliament to attend the Wales virtual roadshow which we held on 22 October 2020.

On the advice of Welsh Government officials the Commission Secretariat invited members (sitting at the time) of the Senedd Committees responsible for international trade and agriculture issues - the External Affairs and Additional Legislation and the Climate Change, Environment and Rural Affairs Committees.

Members of the UK Parliament were invited on the basis of the interest they had expressed in the UK Parliament on the agri-food issues that the Commission would be looking at. Thirteen Members were invited; three attended and two were represented by assistants.

We recognised that there was wider interest across the whole of the UK Parliament in the Commission's work. We decided, therefore, to hold a further discussion with MPs on 18 November. All Members of the UK Parliament were invited. 27 joined the meeting including five Members representing Welsh constituencies.

I look forward to continuing our dialogue with the Senedd and the Welsh Government in the lead-up to the publication of the Commission's report.

Best wishes

Tim J Smith

Chair, Trade and Agriculture Commission

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon